Grwpiau Trawsbleidiol

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

2. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar grwpiau Trawsbleidiol. Mae llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol yn ymwneud â gwaith Grwpiau Trawsbleidiol, gan gynnwys fel yr ysgrifenyddiaeth neu fel mynychwyr. Maent yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau eu bod yn gweithredu.

BETH YW EICH BARN AR Y TREFNIADAU AR GYFER GRWPIAU TRAWSBLEIDIOL YN Y SENEDD?

3. Gall a dylai Grwpiau Trawsbleidiol fod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu mewnwelediad arbenigol a chael trafodaeth drawsbleidiol, draws-sector ar faterion allweddol, gan roi'r cyfle i'r rheini sy'n mynychu ddylanwadu ar feddylfryd Aelodau o'r Senedd. Yn yr achosion gorau, dyna'n gwmws beth ydynt.

4. Rydym wedi clywed am fudiadau yn y sector gwirfoddol sydd wedi cael mân broblemau â grwpiau trawsbleidiol, fel y trafodir isod. Ond mae eraill wedi dweud nad ydynt wedi cael unrhyw broblemau o gwbl â'r trefniadau presennol. Mae hyn yn ein harwain i gredu nad oes problem gynhenid â grwpiau trawsbleidiol yn gyffredinol; yr unig beth sydd ei angen mewn gwirionedd yw mwy o gysondeb yn y trefniadau. Byddai hyn yn caniatáu i'r holl grwpiau trawsbleidiol weithio'n effeithiol.

A OES GENNYCH BRYDERON YNGHYLCH Y TREFNIADAU NEU A YDYCH WEDI CAEL UNRHYW BROBLEMAU Â'R TREFNIADAU? OS FELLY, BETH YDYNT?

5. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Ysgrifenyddiaethau grwpiau trawsbleidiol (sy'n aml yn cynnwys mudiadau o'r sector gwirfoddol) yn cael ychydig mwy o annibyniaeth o Gadeiryddion grwpiau trawsbleidiol. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r holl drefniadau - er enghraifft, cymeradwyo aelodaethau neu bwcio ystafelloedd cyfarfod a TG - gael eu gwneud drwy swyddfa'r Cadeirydd. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn gweithio'n dderbyniol. Ond gall hyn fod yn lletchwith a chymryd cryn amser i gael penderfyniad, ac ateb Ysgrifenyddiaethau gyda chaniatâd i fynd ymlaen â cham nesaf y trefniadau. Mae hyn wedyn yn peri i'r Ysgrifenyddiaeth deimlo'n rhwystredig a digalonni. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Ysgrifenyddiaethau yn gallu mynd ati'n

annibynnol i drefnu materion ac, o bosibl, dim ond cael cadarnhad terfynol gan y Cadeirydd i gymeradwyo'r camau. Er enghraifft, gallai ysgrifenyddiaethau cofrestredig bwcio ystafell a chael cymeradwyaeth gan y Cadeirydd ar ôl hynny, efallai o fewn saith diwrnod.

6. Ychydig iawn o gysondeb sydd ar hyn o bryd o ran creu cysylltiadau rhwng grwpiau trawsbleidiol. Gall hyn arwain at ddyblygu ymdrech a cholli cyfleoedd i rannu syniadau.

7. Nid yw rhai o dudalennau'r grwpiau trawsbleidiol ar wefan y Senedd yn gyfredol, gan restru aelodau nad ydynt yn y Senedd mwyach neu'n rhoi'r wybodaeth anghywir am yr ysgrifenyddiaeth. Awgrymwn fod y Senedd a'r Ysgrifenyddiaethau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diweddaru'n amserol er mwyn gwella tryloywder. Dylid cynnwys y gallu i gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth, hyd yn oed os yw hyn drwy ffurflen gysylltu yn hytrach na thrwy gyhoeddi cyfeiriadau e-bost os byddai hynny'n well.

A YW'R RHEOLAU PRESENNOL YN ADLEWYRCHU SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU GRWPIAU TRAWSBLEIDIOL FEL YR YDYCH YN EU DEALL?

8. Mae gan grwpiau trawsbleidiol amrediad gwahanol iawn o ddiddordebau a ffyrdd o weithio, sy'n aml yn arwain at rolau gwahanol i grwpiau trawsbleidiol a'u haelodau. O ganlyniad, nid yw'r sector gwirfoddol yn gwybod beth yn union yw swyddogaeth fwriadedig unrhyw grŵp trawsbleidiol. Mae rhai wedi disgwyl i grwpiau trawsbleidiol ymddwyn fel is-bwyllgorau yn y bôn. Byddai arweiniad gan Bwyllgor y Senedd ar beth yn union yr hoffent i grwpiau trawsbleidiol ei wneud a'i gyflawni yn amhrisiadwy. Dylid cyfathrebu'r datganiad hwn yn eglur i holl aelodau'r grwpiau trawsbleidiol a'i arddangos ar wefan y Senedd. Bydd hyn yn helpu grwpiau trawsbleidiol i gael yr aelodau cywir ac yn sicrhau bod gan aelodau'r disgwyliadau cywir o'u rôl.

9. O ran y pwynt uchod, rydym wedi clywed adroddiadau bod aelodau allanol yn eistedd ar y grwpiau hyn heb allu chwarae rôl lawn yn effeithiol. Nid bai'r aelodau dan sylw yw hyn o reidrwydd. Yn hytrach, gallai un o'r pethau canlynol, os nad y ddau ohonynt, fod yn gyfrifol am hyn:

    - Rheolau Sefydlog aneglur nad ydynt yn cyfathrebu strwythur a gweithdrefnau grŵp yn effeithiol
    - Cyfathrebu aflwyddiannus rhwng yr aelod a'r grŵp trawsbleidiol ynghylch diben y grŵp trawsbleidiol a'r hyn y byddai disgwyl i'r aelod allanol ei wneud

    Gallai'r aelodau hyn fod wedi defnyddio cryn dipyn o adnoddau i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd grŵp hyn. Byddai eglurder o ran rôl grwpiau trawsbleidiol yn atal ymdrech ofer o'r fath. Er y bydd pob grŵp trawsbleidiol yn debygol o barhau i weithredu yn ei ffordd ei hun, byddai gofyn am reolau sefydlog a datganiad cenhadaeth, a chyhoeddi'r rhain, yn ddefnyddiol.

A OES UNRHYW GAMAU PELLACH Y GELLID EU CYMRYD I GYNYDDU TRYLOYWDER GRWPIAU TRAWSBLEIDIOL? OS FELLY, BETH YDYNT?

10. Dylid parhau i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ar wefan y Senedd mewn modd amserol.

11. Rydym wedi sylwi nad oes cofnodion wedi'u cyhoeddi ar gyfer nifer o grwpiau trawsbleidiol. Os nad oes unrhyw gyfarfodydd wedi'u cynnal gan y grwpiau trawsbleidiol arbennig hyn, ac nad oes unrhyw gofnodion wedi'u cymryd felly, dylid nodi hyn. Os oes cyfarfodydd wedi'u cynnal, dylid cyhoeddi'r cofnodion hyn cyn gynted â phosibl.

David Cook

Swyddog Polisi, CGGC

Awst 2022

dcook@wcva.cymru